Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanarth
# Y Caban
# Ysgol Gynradd Llanarth
# Llanarth
# Ceredigion
# SA47 0PA

**Dyddiad yr arolygiad: 6-7 Chwefror, 2013**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/03/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Llanarth mewn caban ar safle'r ysgol gynradd sydd yng nghanol y pentref ar y brif ffordd rhwng Aberteifi ac Aberaeron. Mae'r plant sydd yn mynychu'r lleoliad yn dod o'r pentref yn bennaf. Bernir bod yr ardal o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Mae man cychwyn lleiafrif o'r plant yn is na'r disgwyl o ran datblygiad iaith a medrau sylfaenol. Yn dilyn eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn parhau â'u haddysg yn yr ysgol gynradd leol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed. Mae ar agor am bum diwrnod yr wythnos rhwng 9.00 a 11.30 y bore yn ystod y tymor ysgol. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd naw plentyn tair oed ar y gofrestr yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth Plant Ceredigion. Saesneg yw prif iaith y cartref i'r rhan fwyaf o'r plant. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir ethnig lleiafrifol yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae arweinydd a dwy ymarferwraig brofiadol yn darparu ar gyfer dysgu'r plant. Mae'r rhan fwyaf yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd myfyrwraig dan hyfforddiant yn aelod ychwanegol o'r tîm. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 10 mlynedd.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn ym Mawrth 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Ionawr 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn;
- bod gan y rhan fwyaf o'r plant agweddau da at ddysgu;
- bod yr holl blant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu ac yn mwynhau'r gweithgareddau;
- bod y lleoliad yn darparu profiadau diddorol i'r plant;
- bod yr addysgu'n dda; a bod yr
- amgylchedd dysgu cynhwysol yn hyrwyddo cyfle cyfartal i'r holl blant.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- arweinyddiaeth effeithiol y prif ymarferydd;
- ymrwymiad yr holl ymarferwyr i ddatblygiad addysgol a phersonol y plant;
- dealltwriaeth dda'r prif ymarferydd o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella;
- cynllun gwella priodol sydd yn cael ei weithredu;
- rheolaeth effeithiol o staff ac adnoddau; a'r
- bartneriaeth adeiladol gyda'r rhieni, yr ysgol gynradd ac asiantaethau eraill.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu, mae angen i'r lleoliad:

A1 ymestyn medrau'r plant ymhellach;

A2 mireinio'r cynllunio i ddatblygu medrau'r plant yn gyson ar draws y meysydd dysgu;

A3 strwythuro'r tasgau ymhellach i gynnig fwy o her i'r plant mwy galluog;

A4 cryfhau gwybodaeth yr ymarferwyr a'r pwyllgor rheoli o brosesu hunan arfarnu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sydd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau gwrando bron pob un o'r plant yn dda. Mae ychydig o'r plant yn hyderus i gynnal sgwrs syml yn Gymraeg ac yn dangos gafael sicr ar ystod o eirfa briodol. Mae'r gweddill yn deall cyfarchion, cyfarwyddiadau a chwestiynau yn dda ond ymatebion byr iawn a geir ar lafar. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddiddori mewn llyfrau ac mae ychydig yn adnabod eu henwau mewn print. Mae'r plant yn gwybod nifer dda o ganeuon a rhigymau ac yn eu hailadrodd yn gywir. Mae'r mwyafrif o'r plant yn defnyddio ystod o ddeunyddiau ac offer marcio yn briodol ar gyfer ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar.

Gwna'r rhan fwyaf o'r plant ddefnydd addas o'u medrau rhif mewn gweithgareddau bob dydd. Mae bron pob un yn cyfrif yn gywir i ddeg ac yn deall termau mathemategol, megis mawr a bach, mewn sefyllfaoedd ymarferol. Gall y rhan fwyaf o'r plant greu a dilyn patrwm yn gywir. Maent yn adnabod nodweddion siapiau sylfaenol ac yn gwybod bod angen arian i brynu nwyddau yn y siop. Gyda chymorth, mae'r mwyafrif o'r plant yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn briodol i symud gwrthrychau ar y sgrin, bwydo cyfarwyddiadau i'r tegan rhaglenadwy, defnyddio meicroffon a chreu patrymau ar y bwrdd golau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud defnydd effeithiol o offer torri, peintio a gludo yn eu gweithgareddau creadigol. Gwna'r rhan fwyaf ddefnydd addas o'u medrau datrys problemau mewn gweithgareddau adeiladau gyda blociau a chwblhau jig-sos a gemau bwrdd.

Mae medrau personol y plant yn datblygu'n dda. Mae'r holl blant yn gyfarwydd â threfn y sesiwn ac yn derbyn cyfrifoldebau, megis tacluso ar ôl gweithgareddau, yn hyderus.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Gweithiant yn ddiwyd ar dasg gan fwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael. Cydweithiant fel parau a grwpiau bach yn effeithiol. Mae'r mwyafrif o'r plant yn barod i gymryd eu tro ac i rannu offer ac adnoddau. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau annibynnol da ac yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn hyderus.

Mae pob un o'r plant wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni'r oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth.

Mae gan y plant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Maent i gyd yn cyd-chwarae'n hwylus ac yn ymddwyn yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn ymgymryd â phrofiadau newydd gyda diddordeb.

Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy brofiadau yn deillio o'r bartneriaeth gyda'r ysgol. Mae lefelau presenoldeb yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd adeiladol o fframweithiau cynllunio sydd yn rhoi sylw da i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Caiff y plant gyfleoedd rheolaidd i gyfrannu at y cynllunio. Seilir y gweithgareddau ar gyfres o themâu sydd yn addas i ystod oed a datblygiad y plant. Mae cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau dan arweiniad ymarferwyr a rhai y mae'r plant yn cael eu dewis.

Mae'r cynllunio yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a medrau ehangach y plant trwy'r profiadau dysgu a ddarperir. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn sicrhau bod medrau dysgu'r plant yn datblygu'n gyson ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, mae'r cyfleoedd i'r plant ddefnyddio ystod o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac agweddau ar rif yn fwy anwastad.

Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Yn ystod sesiynau grŵp, mae cyfleoedd rheolaidd i'r plant wrando ar storïau, sgwrsio am eu gweithgareddau, ymuno mewn caneuon a rhigymau, a defnyddio eu medrau marcio. Cyflwynir plant i draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

Darperir cyfleoedd addas i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy weithgareddau megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r plant yn cymryd rhan weithredol yn nhrefniadau ailgylchu'r lleoliad. Fel rhan o'r thema 'Pobl sy'n ein helpu' mae dilyn trywydd sbwriel yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r defnydd o ddulliau addysgu gwahanol ac o adnoddau pwrpasol yn sbarduno diddordeb y plant ac yn sicrhau eu hymglymiad yn eu dysgu. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r plant yn ystod sesiynau stori a sesiynau grwpiau bach. Ceir cyflwyniadau brwdfrydig a chwestiynu da sydd yn annog y plant i gyfrannu a mwynhau. Caiff gweithgareddau eu paratoi'n fanwl. Er hyn, nid ydynt wedi'u strwythuro'n ddigonol bob amser i ymestyn medrau'r plant mwy galluog.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn medru trafod eu datblygiad yn ddeallus. Maent yn arsylwi ar ymateb y plant yn gyson ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol. Mae gan yr ymarferwyr afael sicr ar gynnwys y cofnodion ac mae'r defnydd o'r wybodaeth a gesglir ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn y dysgu yn parhau i ddatblygu. Cesglir samplau o waith y plant mewn ffolderi unigol, sydd yn gofnod defnyddiol o'u datblygiad. Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau dyddiol ac adroddiadau manwl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant.  Mae'r gweithdrefnau sefydlu yn sicrhau bod plant yn ymgynefino'n gyflym yn y lleoliad.  Caiff plant eu hannog i fwyta'n iach, i ofalu am eu hylendid personol ac i ymddwyn yn briodol.  Mae'r defnydd o'r 'caffi' ar gyfer sesiynau byrbryd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn effeithiol.  Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol pan mae angen.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.  Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o'r gofynion.  Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae profiadau o ansawdd da yn hyrwyddo datblygiad personol y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.  Hyrwyddir gwerthoedd, megis tegwch a dealltwriaeth o'r hyn sydd yn gywir a'r hyn sydd yn anghywir, yn gyson drwy'r gweithgareddau dyddiol.  Addysgir y plant yn dda i weithio a chwarae gyda'i gilydd.  Maent yn elwa o'r cyfleoedd i gydweithio ac i rannu.  Mae'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn cyngherddau i'r rhieni yn hybu eu medrau cymdeithasol ymhellach.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae ethos y lleoliad yn creu awyrgylch croesawgar a hapus i'r holl blant.  Mae'n gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i'r profiadau dysgu a ddarperir.  Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio gyda nifer digonol o ymarferwyr.  Mae ganddynt  brofiad helaeth o weithio gyda phlant ifanc.  Mae'r adeilad o ansawdd da ac yn cynnig cyfleusterau addas.  Gwneir defnydd effeithiol o'r gofod dysgu sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd gweithgareddau o amgylch yr ystafell.  Ychwanegir at yr amgylchedd dysgu trwy'r arddangosfeydd deniadol o waith y plant.

Mae adnoddau digonol sydd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu.  Er hyn, mae ystod a chyflenwad adnoddau mathemategol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn fwy cyfyng.  Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sydd yn hyrwyddo dysgu annibynnol.  Gwneir defnydd llawn o'r ardal awyr agored fechan tu allan i'r caban ar gyfer ystod o weithgareddau ymchwilio.  Defnyddir ardal chwarae'r ysgol gynradd yn rheolaidd ar gyfer gweithgareddau corfforol a chreadigol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

O dan arweiniad cadarn prif ymarferydd profiadol, mae'r holl ymarferwyr yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol.  Darperir cyfarwyddiadau clir yn ddyddiol i'r

ymarferwyr sydd yn sicrhau rhediad esmwyth i'r sesiynau. Mae'r cyfarfodydd staff wythnosol yn cynnig cyfleoedd pwrpasol ar gyfer cyd-drafod a chynllunio'r ddarpariaeth. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a datblygiad plant, ac yn agored i syniadau newydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith yn briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn datblygu ei ddealltwriaeth o'i gyfrifoldebau. Mae gan yr aelodau ddiddordeb mawr yn yr hyn sydd yn digwydd ac maent yn gweithio'n galed i godi arian. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion o'u trafodaethau, sydd yn sail i gynllunio pellach. Mae rôl y pwyllgor o ran arfarnu'r ddarpariaeth gyffredinol ac o flaengynllunio yn parhau i ddatblygu. Mae gan y lleoliad system briodol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith Cymraeg y plant a sefydlu cysylltiadau pellach gyda'r ysgol gynradd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y prif ymarferydd wybodaeth sicr o gryfderau'r lleoliad ac o'r prif agweddau sydd angen gwelliant. Mae wedi cynnal arfarniad cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun gwella a gynhyrchwyd yn sgil hyn yn nodi meysydd addas ar gyfer sylw ynghyd ag amserlen a chyfrifoldebau penodol er mwyn cyflawni'r targedau a osodir. Mae'r cynllun yn cynnig arweiniad da ar gyfer datblygu'r lleoliad ymhellach.

Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro'n rheolaidd gan yr athrawes ymgynghorol a chytunir ar feysydd addas i gael sylw. Rhoddir strategaethau priodol ar waith sydd yn gwella'r ddarpariaeth. Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu trafod ymhellach gyda swyddog Mudiad Meithrin.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas ar ystod o agweddau sydd yn ymwneud ag addysg a gofal plant a gwnânt ddefnydd effeithiol o'r hyfforddiant megis y dulliau diddorol a ddefnyddir i hybu medrau iaith y dysgwyr ifanc.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cyd-weithio'n gynhyrchiol gydag ystod o bartneriaid sydd yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad plant. Caiff nodau ac amcanion y lleoliad eu rhannu gyda'r partneriaid.

Mae partneriaeth dda gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau yn ystod yr arolygiad. Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad drwy'r hysbysfwrdd, posteri a chylchlythyron. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi polisi drws agored y lleoliad a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r ymarferwyr.

Mae'r bartneriaeth agos gyda'r pwyllgor rheoli, athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin yn cynorthwyo'r lleoliad. Sefydlwyd perthynas fuddiol gyda'r ysgol gynradd sydd yn hyrwyddo trefniadau trosglwyddo.

Gwneir peth defnydd o'r gymuned ar gyfer ymweliadau ac o gyfraniad ymwelwyr, megis plismones ac adeiladwr, i themâu perthnasol. Mae ehangu'r defnydd o'r gymuned yn faes sydd wedi'i gynnwys yn briodol ar gyfer datblygiad pellach yn y cynllun gwella.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae lefel staffio priodol i gyflwyno'r cwricwlwm ac i ddarparu ar gyfer lles a datblygiad y plant.  Caiff yr ymarferwyr eu lleoli a'u defnyddio'n effeithiol.  Mae gan y lleoliad adnoddau digonol ar y cyfan  a gwneir defnydd llawn ohonynt.  Mae'r adeilad a'r ardal allanol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae gan yr arweinydd a'r trysorydd ddealltwriaeth sicr o'r gyllideb ac mae'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad.  Gwneir defnydd rheolaidd o ymgyrchoedd codi arian ac o grantiau i ychwanegu at y cyflenwad o adnoddau.  Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau a chymryd rhan ymhob gweithgaredd.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |